Cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor Busnes yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) – Rhagfyr 2021

Cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Rhagfyr 2021: Fideo a Chofnodion

Cofnodion a recordiad fideo Cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor Busnes yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ddydd Mercher 8 Rhagfyr 2021.

Yng nghyfarfod Bwrdd yr ASB ar 8 Rhagfyr 2021, nododd ein Prif Weithredwr, Emily Miles, ddull cymesur yr ASB tuag at reoleiddio CBD. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y diwydiant yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynhyrchion CBD fod yn destun asesiad diogelwch yr ASB, a'r camau nesaf yn y broses honno, gan gynnwys diweddaru'r rhestr gyhoeddus CBD.

Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod papur ar ddeall safbwyntiau defnyddwyr ac yn clywed diweddariad ar gyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd. Cyflwynwyd yr adroddiad Gwyddoniaeth blynyddol ar gyfer 2021 yn y cyfarfod hefyd.

Mae agendâu a phapurau llawn y cyfarfod ar gael, a gallwch chi wylio Cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor Busnes yr ASB – 08 Rhagfyr 2021 ar YouTube.

Fideo o gyfarfod Bwrdd a Phwyllgor Busnes yr ASB – Rhagfyr 2021

{"preview_thumbnail":"/sites/default/files/styles/video_embed_wysiwyg_preview/public/video_thumbnails/IFh2w8
LAAkW","video_url":"https://www.youtube.com/watch?v=IFh2w8GCyEQ
","settings":{"responsive":1,"width":"854","height":"480","autoplay":0},"settings_summary":["Embedded
Video (Responsive)."]}

Cofnodion cyfarfod Bwrdd yr ASB – Rhagfyr 2021

Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Busnes ym mis Rhagfyr 2021 yn dilyn eu cadarnhad cyhoeddus ym mis Mawrth 2022.

Cyfarfod Bwrdd yr ASB – Rhagfyr 2021: Agenda a phapurau

Agenda a phapurau ar gyfer cyfarfod Bwrdd yr ASB ar 8 Rhagfyr 2021 yng ngwesty'r Gyfnewidfa Lo, Caerdydd a thrwy Zoom.

Mae agenda’r cyfarfod hwn yn cynnwys y canlynol:

- Diweddariad ar Gyfnod Pontio’r Undeb Ewropeaidd
- Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau
- Diweddariad ar Wyddoniaeth 2021
- Diweddariad 2021 y Pwyllgor Cynghori ar Wyddor Gymdeithasol
- Deall Safbwyntiau Defnyddwyr 2021

Mae Cyfarfod Pwyllgor Busnes yr ASB yn dilyn cyfarfod Bwrdd yr ASB.

Cwestiynau

Rhestr o'r cwestiynau a'r atebion a gyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod hwn.

Sylwch fod yr adroddiadau canlynol ar gael yn Saesneg yn unig.

PDF
Gweld Cwestiynau ac atebion ar gyfer Cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2021 as PDF(Open in a new window) (179.13 KB)

09:00 – Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Mae’r Athro Susan Jebb yn cyflwyno cofnodion a chamau gweithredu cyfarfod blaenorol Bwrdd yr ASB ym mis Medi 2021. Mae’r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Steven Pollock, yn rhannu’r cwestiynau a ddaeth i law cyn cyfarfod y Bwrdd ac mae Susan Jebb yn cyflwyno adroddiad y Cadeirydd.

PDF
Gweld FSA 21-12-01 - Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd - Mis Medi as PDF(Open in a new window) (180 KB)
PDF
Gweld FSA 21-12-02 - Camau Gweithredu yn deillio o Gyfarfod y Bwrdd as PDF(Open in a new window) (97.19 KB)

09:20 – Adroddiad y Prif Weithredwr i Fwrdd yr ASB

Mae Emily Miles yn cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr i Fwrdd yr ASB.

PDF
Gweld FSA 21-12-03 - Adroddiad y Prif Weithredwr i'r Bwrdd as PDF(Open in a new window) (195.41 KB)

09:55 – Diweddariad yr ASB ar Bolisi Pontio’r Undeb Ewropeaidd

Mae Rebecca Sudworth ac Anjali Juneja yn cyflwyno papur sy’n edrych ar y sefyllfa bresennol, flwyddyn ar ôl diwedd cyfnod pontio’r Undeb Ewropeaidd (UE), gan ganolbwyntio ar feysydd gweithgarwch polisi posibl yn y dyfodol ar draws y pedair gwlad.

PDF
Gweld FSA 21-12-04 Diweddariad yr ASB ar Gyfnod Pontio'r Undeb Ewropeaidd as PDF(Open in a new window) (175.13 KB)

10:30 – Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau

Mae Katie Pettifer a Carmel Lynskey yn cyflwyno papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd y rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau (ABC), ac yn enwedig y prosiect sy'n edrych ar reoleiddio ar lefel mentrau a'r gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud i feintioli lefel y risg a berir gan fwyd a werthir ar-lein.

PDF
Gweld FSA 21-12-05 - Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau as PDF(Open in a new window) (274.17 KB)

11:05 – Egwyl

11:20 – Diweddariad ar Wyddoniaeth 2021

Mae Rick Mumford yn cyflwyno papur sy'n rhoi diweddariad blynyddol ar wyddoniaeth yr ASB, gan gynnwys: rôl gwyddoniaeth yn yr ASB; buddion gwyddoniaeth yr ASB; disgrifiad o'n gallu gwyddonol; adolygiad o'r gwaith a wnaed ers y diweddariad diwethaf; a chrynodeb o'r prif flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf a thu hwnt.

PDF
Gweld FSA 21-12-06 - Diweddariad ar Wyddoniaeth as PDF(Open in a new window) (386.83 KB)

11:55 – Diweddariad 2021 y Pwyllgor Cynghori ar Wyddor Gymdeithasol

Mae Julie Hill yn cyflwyno papur i roi'r diweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau'r Pwyllgor Cynghori ar Wyddor Gymdeithasol (ACSS).

PDF
Gweld FSA 21-12-07 - Diweddariad ACSS as PDF(Open in a new window) (141.46 KB)

12:15 – Deall Safbwyntiau Defnyddwyr 2021

Mae Michelle Patel yn cyflwyno papur sy'n rhoi amlinelliad o'r dulliau a ddefnyddir i gasglu mewnwelediadau defnyddwyr, crynodeb o'r tueddiadau ym mhryderon a buddiannau defnyddwyr, yr hyn a ddysgwyd o'n rhaglen i ddeall safbwyntiau defnyddwyr, ac amlinelliad o'r blaenoriaethau ar gyfer ein rhaglen i ddeall safbwyntiau defnyddwyr ar gyfer y flwyddyn i ddod.

PDF
Gweld FSA 21-12-08 - Deall Safbwyntiau Defnyddwyr 2021 as PDF(Open in a new window) (377.32 KB)

12:35 – Adroddiad gan Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae Colm McKenna yn rhannu crynodeb o gyfarfod ARAC ar 23 Tachwedd.

PDF
Gweld INFO 21-12-01 - Crynodeb ARAC as PDF(Open in a new window) (110.1 KB)

12:45 – Adroddiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd

Adroddiadau llafar Cadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd gan Colm McKenna a Peter Price.

12:55 – Unrhyw faterion eraill

Diwedd cyfarfod y Bwrdd

Pwysig

Mae Cyfarfod Pwyllgor Busnes yr ASB – Rhagfyr 2021 yn dechrau am 13:45.

Cyfarfod Pwyllgor Busnes yr ASB – Rhagfyr 2021: Agenda a phapurau

Agenda a phapurau ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Busnes yr ASB ar 8 Rhagfyr 2021 yng ngwesty'r Gyfnewidfa Lo, Caerdydd.

Yn dilyn cyfarfod Bwrdd yr ASB, bydd cyfarfod y Pwyllgor Busnes hwn, sydd hefyd wedi'i gadeirio gan yr Athro Susan Jebb, yn ymdrin â'r adroddiad Perfformiad ac Adnoddau, Diweddariad Blynyddol yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, Diweddariad ar Gynllun Adfer Awdurdodau Lleol, a Diweddariad ar Gyfathrebu.

Sylwch fod yr adroddiadau canlynol ar gael yn Saesneg yn unig.

13:45 – Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Mae'r Athro Susan Jebb yn cyflwyno cofnodion a chamau gweithredu cyfarfod blaenorol Pwyllgor Busnes yr ASB ym mis Medi 2021.

PDF
Gweld FSA 21-12-09 - Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Busnes - Mis Medi as PDF(Open in a new window) (158.09 KB)
PDF
Gweld FSA 21-12-10 - Camau Gweithredu yn deillio o Gyfarfod y Pwyllgor Busnes as PDF(Open in a new window) (97.82 KB)

13:50 – Adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor Busnes

Mae Emily Miles yn cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor Busnes.

PDF
Gweld FSA 21-12-11 - Adroddiad y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor Busnes as PDF(Open in a new window) (151.83 KB)

14:10 – Adroddiad ar Berfformiad ac Adnoddau Chwarter 2 2021-22

Mae Pam Beadman yn cyflwyno diweddariad ar berfformiad ac adnoddau Chwarter 2 2021-22 gan gynnwys safonau hylendid cig, cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, ac amrywiaeth a chynhwysiant.

PDF
Gweld FSA 21-12-12 - Adroddiad Perfformiad ac Adnoddau as PDF(Open in a new window) (725.37 KB)

14:30 – Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) – Diweddariad Blynyddol

Mae Colin Sullivan a Darren Davies yn cyflwyno papur sy'n amlinellu cyd-destun gweithredu cyfredol yr Uned, ac sy'n tynnu sylw at y prif heriau y mae'r Uned yn parhau i'w hwynebu.

PDF
Gweld FSA 21-12-13 - Diweddariad Blynyddol yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd as PDF(Open in a new window) (390.55 KB)

15:00 – Diweddariad ar Gynllun Adfer Awdurdodau Lleol

Mae Maria Jennings a Michael Jackson yn cyflwyno papur sy'n darparu crynodeb o weithgareddau rheolaethau bwyd swyddogol awdurdodau lleol, a gweithgareddau sicrwydd yr ASB ar gyfer 2020/21 a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad Cynllun Adfer Awdurdodau Lleol.

PDF
Gweld FSA 21-12-14 - Diweddariad ar Gynllun Adfer Awdurdodau Lleol as PDF(Open in a new window) (394.19 KB)

15:20 – Diweddariad Cyfathrebu

Mae Steven Pollock, Justin Everard a Sarah Gibbons yn cyflwyno papur sy'n rhoi diweddariad blynyddol ar gyfathrebu ac ymgysylltu.

PDF
Gweld FSA 21-12-15 - Diweddariad Cyfathrebu as PDF(Open in a new window) (619.14 KB)

15:40 – Unrhyw faterion eraill

Yn ôl i'r brig